

Parch Ruth Coombs  
Pennaeth Cymru  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru |  
EHRC Wales

9 Gorffennaf 2020

Annwyl Ruth

### **Craffu ar reoliadau Llywodraeth Cymru: asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb**

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda. Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2020 ynghylch cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn enwedig mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a wnaed i ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus Covid-19. Trafodom eich llythyr yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020 fel rhan o'n gwaith craffu ffurfiol ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020.

Fel yr ydych yn cydnabod, mae gennym rôl bwysig o ran craffu ar sut y mae gan y ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd y potensial i ymyrryd â hawliau dynol. Mae hyn, wrth gwrs, yn arbennig o berthnasol i'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r coronafeirws a wnaed gan Weinidogion Cymru sy'n cyfyngu ar ryddid pobl yng Nghymru.

O ran eich cyfeiriad penodol at reoliad 8 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y trefniadau y maent yn eu hystyried yn briodol i gyhoeddi adroddiadau ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Mae hwn yn ofyniad eang a osodir ar Weinidogion Cymru ac nid yw'n berthnasol i'w swyddogaethau gwneud rheoliadau yn unig.

Serch hynny, rwy'n rhagweld y bydd y Pwyllgor yn codi'r mater o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ei adroddiadau ar unrhyw is-ddeddfwriaeth yn y



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

☎ 0300 200 6565

dyfodol a allai effeithio'n sylweddol ar gydraddoldeb yng Nghymru. Yn rhan o'r broses adrodd honno, bydd y Pwyllgor, lle bo'n briodol, yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymateb.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

**Mick Antoniw AS**  
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
We welcome correspondence in Welsh or English

